# 'Dai' yn dod 'nôl i'r capel




Aeth 135 o flynyddoedd heibio ers i David Lloyd George a Margaret Owen o fferm Mynydd Ednyfed, Cricieth, briodi yng Nghapel Pencaenewydd yn Eifionydd. Fe'u priodwyd mewn gwasanaeth distaw i griw dethol o bobl, allan o glyw'r cyhoedd a'r cyfryngau, gyda Richard Lloyd, ei ewythr, a'r Parch. John Owen yn gweinyddu.

Mae'n debyg nad oedd rhieni Margaret yn gefnogol i'r briodas. Roedd teulu Mynydd Ednyfed yn Fethodistiaid Calfinaidd pybyr tra perthynai teulu'r Georgiaid i'r Bedyddwyr Campbelaidd oedd ar y pryd yn cael eu hystyried gan rai fel sect. Beth bynnag, priodwyd y ddau yn y capel ar 24 Ionawr 1888, ond ni fynychodd ei fam na'i chwaer y gwasanaeth.

Buont yn briod am 53 o flynyddoedd, tan farwolaeth Margaret yn 1941, a ganwyd iddynt bump o blant. Yn dilyn ei marwolaeth hi, priododd Lloyd George â Frances Stevenson a fuasai'n ysgrifenyddes bersonol iddo, ond bu yntau farw ymhen dwy flynedd, ar 26 Mawrth 1945.

Bu'n ffigwr dylanwadol iawn yng ngwleidyddiaeth Prydain gan dreulio cyfnodau fel Canghellor y Trysorlys a Gweinidog Arfau cyn cael ei ethol yn Brif Weinidog yn 1916 – swydd a ddaliodd am chwe blynedd. Câi ei adnabod yn y swydd honno fel 'y Dewin Cymreig', a hyd yma fo ydi'r unig Gymro i wasanaethu fel Prif Weinidog yn San Steffan.

Nos Wener, 23 Chwefror, bydd 'Dai' yn dychwelyd i Gapel Pencaenewydd er mwyn cyflwyno hanes ei fywyd mewn drama un person, gyda'r gwleidydd enwog yn cael ei bortreadu gan yr actor Carwyn Jones. Drama ydi hi gan gwmni Mewn Cymeriad. Ysgrifennwyd *Dai* gan Manon Steffan Ros a'i chyfarwyddo gan Rhian Blythe. Gellir cael tocynnau am £12 yr un o wefan www.mewncymeriad.cymru.

Meddai Eleri Twynog o'r cwmni: 'Drama un cymeriad yw hon sy'n olrhain hanes David Lloyd George, un o Gymry Cymraeg mwyaf dadleuol ein hanes. Dewch gyda ni drwy ddrws rhif 10 Stryd Downing i gyfarfod y Prif Weinidog o Lanystumdwy. Cawn ein tywys drwy ddigwyddiadau mawr ei fywyd a'r dewisiadau a wnaeth ar y daith, gan bwyso a mesur y drwg a'r da.'



Pa fersiwn o Lloyd George ddaw i'ch meddwl chi gyntaf, tybed? Beth am ichi ymuno â'r gynulleidfa yng Nghapel Pencaenewydd ar 23 Chwefror am 7.30 i gael clywed ei stori ryfeddol yn llawn.

*Aled Davies*

**Bydd y ddrama'n cael ei chyflwyno mewn lleoliadau eraill ar hyd a lled Cymru rhwng 7 a 24 Chwefror – ceir mwy o wybodaeth ar wefan www.mewncymeriad.cymru**

# Eisteddfod yr Urdd, Maldwyn, 27 Mai–1 Mehefin 2024: Pabell yr Eglwysi a'r Ysgolion Sul

Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: Eglwysi ynghyd yng Nghymru a Chyngor yr Ysgolion Sul am 7 o'r gloch nos Fercher, 6 Mawrth, yng Nghapel Moreia, Llanfair Caereinion, i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwysi ar faes Eisteddfod yr Urdd eleni.

Rydym yn edrych ymlaen at ddechrau cynllunio ar gyfer yr eisteddfod, a gynhelir rhwng 27 Mai a 1 Mehefin ar gyrion pentref Meifod ym mwynder Maldwyn. Yn ôl yr arfer, bydd gan yr enwadau stondin/uned yno, ynghyd ag uned arall gan Gymorth Cristnogol.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin.

Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib gyda'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach cysylltwch ag Aled Davies ar 07894580192 neu aled@ysgolsul.com